



## Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Microsoft Teams

8 Medi 2021

<b>Yn bresennol</b>	
<b>Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau</b>	
Hannah Evans-Price (HEP)	Swyddog Cymorth Prosiect a Pholisi
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ) <b>(CADEIRYDD)</b>	Prif Weithredwr
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
<b>Heddlu De Cymru</b>	
Kathryn Chadd (KC)	Pennaeth Adnoddau a Gwobrwyo
Dirprwy Brif Gwnstabl Jenny Gilmer (JG)	Dirprwy Brif Gwnstabl
Yr Uwch-arolygydd Esyr Jones (EJ)	Pennaeth Perfformiad a Sicrwydd
Ditectif Rhingyll Kaylee Povey (KP)	Adran Diogelu'r Cyhoedd
<b>Aelodau PALG</b>	
Liz Baker (LB)	Barnardo's
Suzanne Bocoum (SB)	Cymorth i Ddioddefwyr
Catherine Docherty (CD)	Aelod Annibynnol
Alex Drummond (AD)	Aelod Annibynnol
Daniel Hall (DH)	Oasis Caerdydd
Kate Jones (KJ)	Thrive
Judith Major (JM)	Hafal
Wasem Said (WS)	Aelod Annibynnol
Claire Skidmore (CS)	Race Equality First
Samar Small (SS)	Aelod Annibynnol
Amy Taylor (AT)	Aelod Annibynnol
Dave Vice (DV)	Hafal

	Eitem	Cynnwys
1.	<b>Croeso a Chyflwyniadau</b>	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a nododd ymddiheuriadau.
2.	<b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf a chamau gweithredu sy'n codi ohono</b>	<p>2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a chytunwyd nad oedd unrhyw gamau gweithredu yn codi ohono.</p> <p>2.2 Cyfeiriodd SS at y presenoldeb isel a sut y byddai'r grŵp yn penderfynu a fyddai unrhyw gyfarfodydd yn mynd yn eu blaen yn y dyfodol, yn dibynnu ar y niferoedd. Nododd LJ y byddai tîm y Comisiynydd yn edrych i mewn i hyn, gwerthfawrogwn fod amser pobl a phresenoldeb aelodau annibynnol yn hollbwysig.</p> <p>2.3 Aeth AT i'r afael â'r mater mewn perthynas â chysylltu yn dilyn cyfarfodydd a theimlwyd bod angen i'r cyfathrebu wella ac nid oedd unigolion bob amser yn cysylltu pan ddywedon nhw y bydden nhw'n gwneud. Nodwyd gan dîm y Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i rannu manylion cyswllt.</p>

<p><b>3.</b></p>	<p><b>Cynigion Gweithredu Cadarnhaol ar gyfer Gweithlu Cynrychioliadol</b></p>	<p>3.1 Rhoddodd KC drosolwg i'r grŵp o Gynigion Gweithredu Cadarnhaol ar gyfer gweithlu mwy cynrychioliadol. Rhannodd KC y gwaith yr oedd Heddlu De Cymru wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu yn well a rhoddodd drosolwg cyffredinol o ddata'r cyfrifiad ar gyfer swyddogion Heddlu De Cymru. Cyfeiriodd KC at y gwahanol feysydd lle gwelwyd gwelliant, gan gynnwys cydraddoldeb rhywedd. Cyfeiriodd KC at yr anawsterau wrth recriwtio pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i'r heddlu er gwaethaf cryn ymdrech a buddsoddiad.</p> <p>3.2 Darparodd KC drosolwg o gynlluniau i'r dyfodol a phethau y gallai Heddlu De Cymru eu gwneud yn wahanol er mwyn goresgyn heriau yn yr ardal hon, gan gynnwys adolygu'r strategaethau denu a chyfathrebu targedig.</p> <p>3.2 Rhannodd AT fod pobl o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn teimlo bod y broses recriwtio yn "ymarfer blwch ticio" a holodd a oedd gan unrhyw aelodau staff neu swyddogion cyffredol unrhyw euogfarnau troseddol.</p> <p>3.3 Teimlai AD fod cyfraddau cadw yn broblem a holodd beth roedd yr heddlu'n ei wneud i gadw pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac a ofynnwyd iddynt a fyddent yn argymhell y sefydliad i ffrind.</p> <p>3.4 Teimlai LB fod y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn fenter gadarnhaol yn ogystal ag ymgyrch "Heddlu Bach" sy'n hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ymhlith plant ysgolion cynradd. Teimlai LB ei bod hi'n bwysig cynrychioli delwedd gadarnhaol o'r heddlu ymhlith plant oedran ysgol gynradd er mwyn annog cydberthnasau cadarnhaol rhwng cymunedau a'r heddlu.</p> <p>3.5 Nododd WS pan ofynnwyd i'r bobl ifanc o'r clwb paffio yn Tiger Bay a fyddent yn ymuno â'r Heddlu, ni ddywedodd yr un ohonynt y bydden nhw. Rhannodd WS mai'r rheswm dros hyn oedd eu bod wedi cael eu stopio a'u chwilio ar sawl achlysur a materion o ran ymddiriedaeth. Holodd WS faint o swyddogion a oedd yn ddwyieithog a theimlwyd bod hyn yn rhan bwysig o allu meithrin ymddiriedaeth mewn cymunedau. Nododd WS y byddai swyddogion a oedd yn dangos parodrwydd ac yn dysgu ymadroddion byr yn helpu i feithrin cydberthynas dda ag aelodau o'r cymunedau anos i'w cyrraedd.</p>
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Ymholiad mewn perthynas ag ymateb yr heddlu i gam-fanteisio rhywiol</b></p>	<p>4.1 Cyflwynodd HJJ yr eitem hon a rhannodd ymholiad AT gyda'r grŵp mewn perthynas â nodi bregusrwydd, a hynny yn y sector lletygarwch yn benodol, a sut mae'r heddlu'n ymateb i'r mathau hyn o ddigwyddiadau.</p> <p>4.2 Darparodd AT gyd-destun yn ymwneud â digwyddiad mewn gwesty a holodd beth oedd ymateb yr heddlu mewn perthynas â'r cyhoedd yn rhoi gwybod am gam-fanteisio a bregusrwydd posibl. Teimlai AT fod llinell gyswllt uniongyrchol rhwng gwestai a byddai swyddog yn fanteisiol i'r dioddefwyr ond hefyd i'r heddlu, wrth drafod yr amrywiol fathau o droseddau sy'n digwydd mewn gwestai. Teimlai hefyd y dylai staff gwestai gael hyfforddiant a fyddai'n eu galluogi i nodi dioddefwyr camdriniaeth posibl.</p> <p>4.3 Nododd AD nad gwaith rhyw sy'n anghyfreithlon, ond cam-fanteisio ac roedd hi'n bwysig ystyried sut mae nodi'r gwahaniaeth rhwng pobl a oedd yn gweithio'n broffesiynol a'r bobl a oedd yn cael eu cam-fanteisio.</p>

		<p>4.4 Cyfeiriodd KJ at y gwaith SWAN parhaus a oedd yn cael ei dreialu gan Thrive a oedd yn gweithio gyda gweithwyr rhyw yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Cyfeiriodd KJ at awgrym blaenorol a wnaed, sef y byddai unrhyw sefydliad yn y diwydiant lletygarwch yn gorfod darparu hyfforddiant ar drais domestig neu rywiol arbenigol ar gyfer eu staff fel gofyniad gorfodol o ran eu trwydded.</p> <p>4.5 Ymatebodd KP i'r ymholiad a diolchodd i AT am ddod ag ef i sylw'r grŵp. Nododd KP nad oes digon yn rhoi gwybod am gam-fanteisio a nododd fod gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud rhwng yr Heddlu ac asiantaethau partner yn y maes hwn. Rhannodd KP y broses ymateb â'r grŵp a oedd yn cynnwys asesiad THRIVE (bygythiad, niwed, arf asesu risg) a oedd yn cael ei gwblhau gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus (pobl sy'n derbyn galwadau) a fyddai'n asesu'r wybodaeth mewn perthynas â'r digwyddiad y soniodd AT amdano. Nododd KP o ran y math hwn o ddigwyddiad, byddai'r swyddogion yn bresennol i siarad â'r dioddefwyr posibl, fel blaenoriaeth diogelu, yn hytrach na mynd ar drywydd y troseddwr honedig. Nododd KP hefyd na fydd y swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r person sy'n gwneud yr adroddiad cychwynnol bob amser, yn enwedig os mai galwyr trydydd parti ydyn nhw, ond roedd am sicrhau'r grŵp y byddai ymchwiliad yn cael ei gynnal i unrhyw adroddiad o'r natur hon.</p> <p>4.6 Nododd KP fod "diwrnodau addysg" yn cael eu cynnal i swyddogion yn Adran Diogelu'r Cyhoedd i nodi prif ddangosyddion cam-fanteisio gydag arbenigwyr cynnwys.</p> <p>4.7 Cyfeiriodd LB at y prosesau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith a deall pwysigrwydd diogelu yn yr heddlu, yn enwedig ar gyfer newydd-ddyfodiaid er mwyn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant digonol a'u bod yn deall diogelu. Cyfeiriodd LB at y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a nododd y byddai'n mynegi'r angen i staff lletygarwch gael hyfforddiant er mwyn nodi bregusrwydd a cham-fanteisio yn ystod y cyfarfod nesaf. Nododd LB y byddai hefyd yn tynnu sylw at y pwyntiau a godwyd mewn gweithgor ar gyfer yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd.</p> <p>4.8 Nododd JG ei bod hi am siarad â'r arweinydd gweithredu trwyddedu er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'r ffordd y gallent ymgorffori gwestai yn y gwaith a oedd eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn. *GWEITHRED* JG i gysylltu ag AT mewn perthynas â'i syniadau ar y maes gwaith hwn.</p>
5.	<b>Diweddariadau gan Bartneriaid</b>	5.1 Ni chafwyd unrhyw ddiweddariadau na sylwadau gan asiantaethau partner.
6.	<b>Unrhyw Fater Arall</b>	6.1 Ni thrafodwyd unrhyw fater arall. Diolchodd LJ i'r aelodau am eu mewnbwn a gofynnodd i NS gadarnhau a fyddai aelodau PALG ar gael i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Tabl Camau Gweithredu**

Cam Gweithredu	Perchennog
JG i gysylltu ag AT mewn perthynas â'i syniadau ar y maes gwaith hwn, trwyddedu, gwestai a cham-fanteisio rhywiol.	JG